

Ymgyrch Paid cadw'n dawel - Stori *Sarah

Pan ddaeth Sarah i Gymru gyda'i gŵr yn 2013, gan adael ei merch fach 8 mis oed gyda'i theulu a'i chymuned yn Nigeria, doedd hi ddim yn sylweddoli pa mor chwyldroadol fyddai'r cam iddi hi a'i theulu. Mae tri o blant gan Sarah, bachgen a dwy ferch ac mae wedi goroesi'r broses o anffurfio ei horganau cenhedlu. Mae cael gwared ag organau cenehedlu allanol benywod, boed yn rhannol neu'n llwyr, yn anghyfreithlon yn y DU. Mae effeithiau hirdymor i'r broses, gan gynnwys cymhlethdodau wrth roi genedigaeth, ffactor bwysig yn achos Sarah.

Cafodd Sarah ei magu yn Nigeria, ac roedd anffurfio organau cenhedlu benywod yn gyffredin yn ei chymuned. Roedd y credoau a'r arferion traddodiadol yn elfennau hanfodol o fywyd, a byddai pob merch yn mynd drwy'r broses. Ond doedd Sarah ddim yn gwybod mai anffurfio organau cenhedlu benywod oedd yr enw arno.

Pan ofynnodd bydwaig i Sarah a oedd hyn wedi digwydd iddi hi, felly, nid oedd yn deall y cwestiwn i ddechrau. Gofynnodd Sarah iddi esbonio. Pan aeth y fydwaig ati i esbonio beth yw anffurfio organau cenhedlu benywod, a siarad â Sarah am ei effeithiau, yn enwedig ar feichiogrwydd, sylweddolodd mai dyma oedd ei phrofiad hi.

Mae Sarah yn dweud bod y sgwrs hon yn hollbwysig ac mai dyma oedd dechrau ei stori mewn sawl ffordd. Ei bydwaig oedd y person cyntaf i siarad â hi am anffurfio organau cenhedlu benywod, ac roedd yn anodd iddi ddeall yr hyn yr oedd yn ei esbonio. Doedd hi ddim yn sylweddoli nad oedd yr hyn oedd wedi digwydd iddi hi yn digwydd mewn cymunedau eraill. "Roedd yn sgwrs anodd ac emosiynol" meddai Sarah:

"Roeddwn i mewn penbleth, ac fe wnes i ypsetio a gwylltio. Nid dyma roeddwn i'n ei ddisgwyl. Yn ein diwylliant ni, mae menywod sydd heb gael eu torri yn cael eu hystyried yn aflan. Fe wnes i drio cerdded i ffwrdd. Wrth imi wneud, gofynnodd y ferch ar y dderbynfa imi "Wyt ti'n iawn?". Fe wnaeth hi fy helpu i ymdawelu. Roedd hi'n sylweddoli fy mod i eisiau siarad â'r fydwaig wedi'r cwbl. Er ei bod yn anodd iddi hi hefyd, rwy'n siwr, roedd hi'n deall yr hyn roeddwn i'n ei ddweud ac fe wnaeth hi fy helpu."

Ers y cam cyntaf hwnnw, mae eraill hefyd wedi helpu Sarah a'i theulu:

"Rhoddwyd fi mewn cysylltiad â **Bawso ac fe wnaethon nhw ddechrau esbonio mwy ar y materion roeddwn i'n eu hwynebu. Fe wnaethon nhw roi cyngor imi a llawer o anogaeth sydd wedi fy helpu i fod yn gadarn ac yn gryf. Fe roeson nhw wybod imi hefyd am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael gan y cyngor lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol."

Mae yna nifer o broblemau yn dal i wynebu Sarah a'i theulu. Mae eu perthynas â rhai aelodau o'u teulu estynedig yn anodd o achos y penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud. Daeth â'i merch i Gymru i'w gwarchod rhag cael ei thorri ar ôl iddi sylweddoli beth oedd wedi digwydd iddi hi. Roedd y penderfyniadau hyn yn rhai anodd iawn, ond diogelu ei merch yw blaenoriaeth Sarah, ac mae'r cymorth mae wedi'i gael gan ei bydwaig wedi creu ymdeimlad cryf iawn ynddi bod yn rhaid iddi warchod ei merch rhag y broses anffurfio.

Mae Sarah yn arbennig o ddiolchgar i'r rheini sydd wedi'i chefnogi:

"Fe hoffwn i weld y bobl hynny i gyd eto, yn enwedig fy mydwraig, er mwyn gallu diolch iddyn nhw. Dw i'n gwerthfawrogi'n aruthrol eu hamynedd, eu tŷn a'r iaith roedden nhw'n ei defnyddio wrth fy helpu, er na wnes i ddangos hynny o reidrwydd ar y pryd. Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi bod yn barod i fy helpu a'm cefnogi. Mae yna rai nad oedd yn deall. Gobeithio y gallwn ni godi mwy o ymwybyddiaeth o gwestiwn anffurfio organau cenhedlu benywod er mwyn datblygu dealltwriaeth pobl ohono a'i effeithiau ar fywydau.

Anffurfio organau cenhedlu benywod yw un o'r ffyrdd gwaethaf o gam-drin rhywun ac ni ddylai ddigwydd i unrhyw fenyw na merch.

Fe hoffwn i pe bai'r bobl a roddodd help imi yn gweld yr effaith ar fy mywyd i ac ar fywydau pobl yn fy nheulu. Fe hoffwn i pe baen nhw'n gweld yr hyder maen nhw wedi'i roi imi. Fe hoffwn i iddyn nhw weld mor hapus ydw i o ddydd i ddydd. Dydy fy mhlant i ddim yn mynd i fynd drwy hyn. Dw i'n oroeswr."

Mae Sarah yn teimlo'n gryf bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn gamdriniaeth yn erbyn menywod a phlant, ac mae hi'n rhannu ei phrofiad fel rhan o ymgyrch 'Paid cadw'n dawel' i godi ymwybyddiaeth a helpu i ddod â'r arfer i ben.

*Newidiwyd ei henw

** Mudiad gwirfoddol ar gyfer Cymru gyfan yw Bawso. Mae'n darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig y mae cam-drin domestig a thrais o unrhyw fath yn effeithio arnynt neu sydd mewn perygl o gam-drin neu drais, gan gynnwys:

anffurfio organau cenhedlu benywod,

priodas dan orfod,

trais ar sail anrhydedd, a

masnachu mewn pobl.

<http://www.bawso.org.uk/>